Hyfforddiant a Digwyddiadau 2011-12

Bwriedir hyfforddiant CTA Cymru ar gyfer sefydliadau sydd eisiau datblygu eu gwasanaethau cludiant, uwchsgilio eu staff a chryfhau eu trefn lywodraethol. Mae ein cyrsiau ar gael ar gyfer aelodau a'r rhai nad ydynt yn aelodau a byddant o fudd i:

Weithredwyr Cludiant Cymunedol

Sefydliadau Trydydd Sector eraill sy'n darparu cludiant ar gyfer eu haelodau

Sefydliadau Addysgol sy'n rhedeg eu cludiant eu hunain

Adrannau Llywodraeth Leol

Cartrefi Gofal sy'n rhedeg eu cludiant eu hunain

Ariennir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by
Welsh Assembly Government

CYFLWYNIAD I CTA CYMRU

Croeso i lyfryn hyfforddi CTA Cymru ar gyfer 2011-12. Yma, cewch fanylion a dyddiadau ein cyrsiau, fforymau rhanbarthol a digwyddiadau ar draws Cymru.

Mae'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol (CTA) yn elusen genedlaethol sy'n tyfu'n gyflym ac yn darparu arweiniad, addysg a chefnogaeth menter i'r sector CC ar draws y DU. Ariennir CTA Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy ei Huned Trafnidiaeth Integredig fel llais cludiant gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru. Mae ein staff wedi'u lleoli yn ein swyddfeydd yng Nghlydach a'r Rhyl.

3 FFORDD HAWDD I ARCHEBU LLE

1 Trwy'r post: anfonwch y ffurflen bwcio i:-
CTA Cymru,
Canolfan Forge Fach,
Heol Hebron,
Clydach,
Abertawe,
SA6 5EJ.

2 Trwy e-bost at lindsay@ctauk.org (gellir llwytho ffurflenni i lawr o www.ctauk.org/in-your-area/wales.aspx)

3 Ar-lein, ewch i'n tudalen digwyddiadau ac archebwch le ar-lein.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Lindsay Adams-Jones ar
01792 844290

Noder: Rhoddir cost pob digwyddiad/hyfforddiant heb TAW

POLISI BWCIO A CHANSLO

Fe'ch cynghorir i fwcio'n gynnar. Dylech gwblhau un ffurflen bwcio ar gyfer pob cynrychiolydd a gwnewch gopi o'r ffurflen/-ni ar gyfer eich cofnodion. Ni chaniateir bwcio dros y ffôn. Pan dderbynnir eich ffurflen, os bydd lle ar gael, cadarnheir eich lle trwy ebost. **NODER: Os ydych yn canslo 14 diwrnod neu lai cyn y cwrs neu os nad ydych yn bresennol ar y dydd, ni roddir ad-daliad.**

Telerau ac Amodau

Cydnabyddir ceisiadau o fewn wythnos i'w derbyn. Os na dderbyniwch gadarnhad o fewn pythefnos, cysylltwch â CTA Cymru i sicrhau bod eich cais wedi'i dderbyn. "Y cyntaf i'r felin gaiff falu" biau hi o ran cofrestru. Mae CTA Cymru'n cadw'r hawl i newid elfennau ar y rhaglen hyfforddi ar unrhyw adeg a chynnig dyddiad arall neu ad-daliad llawn heb unrhyw rwymedigaeth am unrhyw golled yn sgil hynny na cholled anuniongyrchol.

Cynnwys y Cwrs – Y Cyswllt Personol

Byddwn yn ymdrechu os oes modd i fodloni anghenion dysgu unigol pob cynrychiolydd ymlaen llaw a'u hymgorffori nhw yng nghyflwyniad y cwrs. Cysylltwch â'r swyddfa os dymunwch drafod hyn ymhellach.

Hyfforddiant Pwrpasol i'ch Sefydliad

Ar ben hynny, gallwn ddarparu hyfforddiant pwrpasol yn ôl y galw; Pe hoffech drafod y cyfleoedd hyn yna cysylltwch â Swyddog Prosiectau CTA ar 01792 844290.

2011/12 DIGWYDDIADAU YN GRYNO

Cyrsiau

Rhedeg Bysiau Mini a Cherbydau MPV Diogel a Chyfreithlon 5

Cynllunio Busnes a Chynllunio Strategol ar gyfer Cludiant Cymunedol 7

Gwacáu Bws Mini mewn Tân 8

Tendro am Gytundebau Cludiant 8

Cyflwyniad i CC 9

Ymatebwr Brys Cymorth 1af 9

Rheoli Ariannaol a Rheoli Cyllid Gwybodus 10

Dangos gwerth CC – Archwilio Cymdeithasol 11

Digwyddiadau

Rowndiau Cymhwyso Gyrrwr MiDAS y Flwyddyn . . 6

Canolbarth/Gogledd Cymru
Gorllewin Cymru
De Cymru

Cynadleddau

Cynhadledd, Arddangosfa a Chinio Gwobrwyo Blynyddol CTA Cymru 9

Fforymau

Fforymau CC Rhanbarthol 12

De Ddwyrain Cymru
De Orllewin Cymru
Gogledd Ddwyrain Cymru
Gogledd Cymru

Fforymau Cynlluniau Ceir Cymunedol 12

Gogledd Cymru

CIPOLWG AR Y DYDDIADAU

Mehefin

4ydd - MiDAS rownd Gogledd/Canolbarth Cymru
12fed - MiDAS rownd Gorllewin Cymru
15fed - Bysiau Mini a Cherbydau MPV Diogel a Chyfreithlon
18fed - MiDAS rownd De Cymru
23ain - Cynllunio Busnes a Chynllunio Strategol ar gyfer Cludiant Cymunedol - NEWYDD

Gorffennaf

7fed - Gwacáu Bws Mini mewn Tân
14eg - Tendro am Gytundebau Cludiant – WEDI'I DDIWEDDARU

Medi

15fed - Cynllunio Busnes a Chynllunio Strategol ar gyfer Cludiant Cymunedol -
22ain - Ymatebwr Brys Cymorth 1af

Hydref

19eg - Rownd Derfynol Gyrrwr MiDAS y Flwyddyn Cymru
19-20fed - Cynhadledd a Chinio Gwobrwyo Blynyddol

Tachwedd

9fed - Cyflwyniad i Gludiant Cymunedol

Rhagfyr

7fed - Rheoli Ariannol a Rheoli Cyllid Gwybodus - NEWYDD

Ionawr 2012

12fed - Rhedeg Bysiau Mini a Cherbydau MPV Diogel a Chyfreithlon
31ain - Cyflwyniad i Gludiant Cymunedol

Chwefror

8fed - Dangos gwerth CC - Archwilio Cymdeithasol - NEWYDD

Mawrth

14eg - Rheoli Ariannol a Rheoli Cyllid Gwybodus.- NEWYDD

Gw. tudalen 12 am ddyddiadau'r Fforymau i gyd

Rhannu Ceir – Arbed Arian a Lleihau eich Ôl Troed Carbon

Mae pob un o'n digwyddiadau wedi'i restru ar fforwm Rhannu Ceir WHQ. Dylech logio i mewn os ydych eisiau cynnig neu ofyn am rannu ceir i unrhyw un o'n digwyddiadau. www.whq.org.uk/carshareforum.

Cystadleuaeth Gyrrwr MiDAS y Flwyddyn Cymru - 2011

Bydd tair rownd i Wobr Gyrrwr MiDAS y Flwyddyn Cymru eto eleni ac fe'u cynhelir yng Nghanolbarth/Gogledd, De a Gorllewin Cymru. Bydd enillwyr rhanbarthol pob rownd yn cystadlu am deitl Gyrrwr MiDAS y Flwyddyn Cymru yn nigwyddiad blynyddol CTA Cymru yn Llandrindod ar 19 Hydref.

Bydd pob rownd yn cynnwys asesiadau gyrru a chwis amlddewis byr. Gwahoddir holl gystadleuwyr buddugol y rowndiau rhanbarthol i Ginio Gwobrwyo Blynyddol CTA ar ddydd Mercher 19 Hydref yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod, lle bydd yr enillydd yn derbyn tlws mawr ei fri Gyrrwr MiDAS y Flwyddyn Cymru 2011.

Cewch gystadlu YN RHAD AC AM DDIM ac anogir pob gyrrwr MiDAS cymwys ar draws Cymru i gymryd rhan. Mae'r niferoedd yn gyfyngedig felly "y cyntaf i'r felin gaiff falu" sy biau hi ac mae cyfyngiad o fwyafswm o 3 chynrychiolydd i bob sefydliad.

Noddir gan

Q'STRAINT.

Wheelchair Passenger Safety Solutions

Rowndiau Cymru 2011

Canolbarth/Gogledd Cymru
Dyddiad: 4 Mehefin 2011
Lleoliad: Plas Dolerw, Y Drenewydd, Powys

Gorllewin Cymru
Dyddiad: 12 Mehefin 2011
Lleoliad: Y Pafiliwn, Hwlffordd

Dan nawdd

P.A.C.T.O.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

De Cymru
Dyddiad: 18 Mehefin 2011
Lleoliad: The Quays, Baglan, Port Talbot.

Dan nawdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Neath Port Talbot County Borough
Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Enillydd Cymru 2010

"Rwy'n gyrru bysiau mini ers dros 12 mlynedd ond dim ond yn 2002 es i ar fy nghwrs hyfforddi MiDAS cyntaf. Ers hynny rwyf wedi cadw i fyny gyda fy hyfforddiant MiDAS. Rŷn ni i gyd yn hoffi meddwl ein bod ni'n yrrwr sy'n well na'r cyffredin . Mae cystadleuaeth gyrrwr MiDAS y flwyddyn yn rhoi cyfle i chi weld pa mor dda rydych chi mewn gwirionedd. Rwyf wedi mwynhau cymryd rhan yn y gystadleuaeth yma'n fawr iawn – mae wedi bod yn eithaf caled gyda chystadleuaeth ffyrnig ond, eto i gyd, gyda digon o hwyl"

George Doyle, Galw'r Gyrrwr Gogledd Sir Ddinbych.

Rhedeg Bysiau Mini a Cherbydau MPV Diogel a Chyfreithlon

Mae'r sesiwn yma'n hanfodol i bawb sy'n rheoli cerbydau a dylid ei fynychu'n flynyddol er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r diweddaraf o ran unrhyw newidiadau. Bydd yn egluro'r cefndir deddfwriaethol manwl sy'n rheoli gweithrediadau cerbydau a chludo teithwyr (bysiau mini a cherbydau MPV) yn y trydydd sector a'r sector addysg. Bydd yn amlinellu mewn termau clir ddiffiniadau manwl 'budd neu dâl', trwyddedau Adran 19 a 22 a'r gofynion o ran trwyddedau gyrwyr ar gyfer mathau gwahanol o weithrediadau.

Yn dilyn o'r uchod, bydd yn archwilio'r newidiadau o ran deddfwriaeth yn sgil Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 ac yn egluro goblygiadau'r rhain yn fanwl. Hefyd, bydd yn sôn am weithredu a defnyddio bysiau mini.

Amcanion Dysgu:

- Budd neu dâl
- Trwyddedau 'O' a thrwyddedau Adran 19 a 22
- Trwyddedu gyrwyr
- Adeiladwaith bws mini
- Gwregysau diogelwch
- Cludo teithwyr mewn cadeiriau olwyn ar fysiau mini
- Cynnal a chadw cerbydau
- Trwyddedu ac yswiriant
- Defnyddio bws mini.

"Ymdriniwyd â nifer o feysydd nad oeddwn yn gwybod amdanyn nhw o'r blaen"

Pwy ddylai ei fynychu?

Unrhyw un â chyfrifoldeb am reoli cerbyd unigol neu fflyd, gyda gyrwyr yn rhedeg cerbydau ar fusnes cwmni ac yn cludo teithwyr naill ai am dâl neu'n ddi-dâl.

Dyddiadau: **15fed Mehefin 2011 a 12fed Ionawr 2012**
Lleoliadau: **Forge Fach, Abertawe - Neuadd Morfa, Y Rhyl**
Hyfforddwr: **Tîm Cynghori, CTA y DU**

Cost: Aelodau £50
Ddim yn Aelodau £60

Cynllunio Busnes a Chynllunio Strategol ar gyfer Cludiant Cymunedol NEWYDD

Yn yr oes yma o gyfyngu ar gyllid cyhoeddus, bydd y sesiwn yma yn eich helpu i ddeall manteision cynllunio busnes a chynllunio strategol i'ch sefydliad. Bydd y cwrs yn eich helpu i ddeall y jargon a gysylltir â strategaeth ynghyd â rhoi'r offer sydd eu hangen arnoch i ddatblygu eich cynlluniau. Bydd y cwrs yma'n codi eich hyder fel eich bod yn medru datblygu cynlluniau effeithiol i fodloni anghenion eich cyllidwyr.

Amcanion Dysgu

Erbyn diwedd y cwrs hyfforddi, bydd cyfranogwyr:

- Yn deall y gwahaniaethau rhwng cynllunio busnes a chynllunio strategol
- Wedi ystyried ystod o offer a thechnegau ymarferol i'ch helpu wrth gynllunio
- Yn deall gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd, cyfeiriad strategol a dewisiadau busnes
- Yn glir ynglŷn â strwythur a chynnwys cynllun busnes
- Wedi archwilio swyddogaeth y cynllun busnes wrth dendro am gytundeb
- Wedi ystyried sut i ddangos cymhwysedd sefydliadol
- Wedi meddwl am gynllunio cyllid.

"Llifo'n dda, gwybodus iawn – i'r dim"

Dyddiadau: **23 Mehefin 2011 a 15 Medi 2011**
Lleoliadau: **Cilfynydd, Abercynon – Galeri Caernarfon**
Hyfforddwr: **Eileen Murphy**

Cost: Aelodau £40
Ddim yn Aelodau £80

Tendro am Gytundebau Cludiant

WEDI'I DDIWEDDARU

Mae ysgrifennu tendrau'n troi'n rhan hanfodol o gynaliadwyedd ac ennill cytundebau, ond mae llawer o bobl yn methu ar y cam cyntaf yn bennaf oherwydd diffyg dealltwriaeth. Felly mae'n hanfodol fod y rhai sy'n ymwneud â hyn yn gallu rheoli'r paratoi a'r cyflwyno er mwyn tendro am geisiadau'n effeithiol.

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i deimlo'n fwy hyderus am ymateb i dendrau ac yn rhoi gwybodaeth i'r rhai sy'n cymryd rhan y gallant ei defnyddio er mwyn gwella eu perfformiad wrth dendro ac fe fydd yn ymdrin ag e-dendro'n fanwl.

Amcanion Dysgu:

- Cynaliadwyedd Ariannol
- Gallu trefniadaethol
- Tendro am Gytundebau/ Hysbysiad
- E-Dendro
- Fframwaith gweithredu a chyfreithiol
- Proses Dendro
- Gwahoddiadau i dendro.

Pwy ddylai ei fynychu?

Y rhai fydd yn ymwneud â pharatoi a chyflwyno tendrau.

Dyddiad: 14 Gorffennaf 2011
Lleoliad: Tŷ Antur, Abercynon
Hyfforddwr: Alex Bird

Cost: Aelodau £40
Ddim yn Aelodau £80

Hyfforddiant Gwacáu Bws Mini mewn Tân

Ydych chi erioed wedi meddwl sut byddech chi a'ch teithwyr yn ymateb mewn argyfwng fel tân mewn cerbyd? Fyddech chi'n gwybod beth i'w wneud? Mae pawb yn gobeithio na fydd hyn byth yn digwydd iddyn nhw, ond mae'n bwysig bod yn barod. Mae'r cwrs hwn yn cynnwys sesiwn theori 2 awr ac yna sesiwn ymarferol yn gwacáu bws mini, gydag a heb fwg ffug theatraidd.

Amcanion Dysgu:

- Gallu adnabod yr hyn sy'n achosi tanau mewn cerbydau yn aml
- Gwybod sut i leihau'r risg o dân mewn cerbyd
- Gwybod pryd a sut i ddefnyddio diffoddwr tân
- Gwybod sut i wacáu cerbyd yn ddiogel.

Er y bydd yr hyfforddiant yn defnyddio bws mini, mae'r cwrs yn addas ar gyfer ceir/cerbydau MPV a bysiau hefyd.

Pwy ddylai ei fynychu?

Unrhyw un sy'n gyfrifol am gludo a gofalu am deithwyr sy'n teithio mewn bysiau mini, ceir a cherbydau MPV.

Dyddiad: 7 Gorffennaf 2011
Lleoliad: Cilfynydd, Abercynon
Hyfforddwr: Asiantaeth Hyfforddi ar gyfer Cludiant Powys

Cost: Aelodau £30
Ddim yn Aelodau £50

"Sesiynau theori ac ymarferol ardderchog ac yn berthnasol i'r ardal wasanaeth"

Ymatebwr Brys Cymorth Cyntaf

Bydd y cwrs hanner diwrnod hwn yn rhoi'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar y rhai sy'n ei fynychu er mwyn achub bywyd oedolyn hyd nes y bydd y gwasanaethau brys yn cyrraedd. Ar ben hynny, bydd y rhai sy'n ei fynychu'n deall sut a phryd i roi'r gwasanaethau brys ar waith.

Pwy ddylai ei fynychu?

Mae'r cwrs hwn yn agored i bawb sy'n delio â'r cyhoedd yn gyffredinol. Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn derbyn llawlyfr a thystysgrif cymorth cyntaf sy'n ddilys am 3 blynedd.

Dyddiad: 22 Medi 2011
Lleoliad: Forge Fach, Abertawe
Hyfforddwr: Fire & First Aid Training Abertawe Cyf

"Wedi'i gyflwyno'n dda gan hyfforddwr hyddysg oedd yn sicrhau ein bod yn deall yn iawn"

Cyflwyniad i Gludiant Cymunedol

Ydych chi erioed wedi gofyn i'ch hun beth yw cludiant cymunedol? Efallai eich bod chi wedi clywed amdano ond heb fod yn sicr beth mae'n cwmpasu. Bydd y cwrs hwn yn cyflwyno'r sector Cludiant Cymunedol i swyddogion o sefydliadau o bob sector ac yn rhoi cipolwg iddynt ar sut mae mathau gwahanol o sefydliadau'n cael eu rhedeg - o gynlluniau ceir cymunedol i gludiant sy'n ymateb i'r galw. Bydd y cwrs yn ymdrin â'r angen am Gludiant Cymunedol a'r ffordd y gall ffurfio rhan ddilys o system cludiant integredig. Ar ben hynny, bydd yn rhoi gorolwg sylfaenol ar rai o'r materion cyffredin a brofir gan y sector.

Pwy ddylai ei fynychu?

Unrhyw un sydd eisiau gorolwg ar Gludiant Cymunedol a sut y gallai gael ei ddefnyddio yn eu hardaloedd nhw a bod o fudd iddynt:

Dyddiadau: 9 Tachwedd – 31 Ionawr 2012
Lleoliadau: Forge Fach, Abertawe - Neuadd Morfa, Y Rhyl
Hyfforddwr: CTA Cymru

Cost: Aelodau £20
Ddim yn Aelodau £40

Rheoli Ariannol a Rheoli Cyllideb Gwybodus. NEWYDD

Rheolwyr a staff sydd am ddeall y materion a'r ystyriaethau ariannol sydd yn glwm wrth baratoi a monitro cyllidebau.

Beth sydd dan sylw?

Mae cyflwyno prosiect yn brydlon ac yn unol â'r gyllideb yn gofyn am set arbennig o sgiliau. Er mwyn gwneud hyn yn llwyddiannus, mae angen i chi ddeall yn llawn oblygiadau ariannol y newidynnau o fewn i'ch sefydliad. Bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i osod cyllidebau, meistroli'r derminoleg, gwerthuso risg, dehongli data a rhagweld llif arian a'r elw a'r golled terfynol.

Amcanion Dysgu:

- Yr angen am gynllunio ariannol
- Cysyniadau sylfaenol
- Refeniw yn erbyn Cyfalaf
- Dibrisiad
- Ffactorau cost – y problemau cyffredin
- Crynhoi cyllidebau
- Rheoli newidiadau
- Diweddaru'r cynllun ariannol
- Rheolaethau ariannol – prynu ac incwm
- Telerau cytundebol – y materion ariannol

Sut bydd o fudd i mi?

- Gallu sefydlu systemau cofnodi a monitro ariannol generig
- Deall y prif dermau a chysyniadau ariannol

Dyddiadau: 7 Rhagfyr 2011 – 14 Mawrth 2012

Lleoliad: Forge Fach, Abertawe
Neuadd Morfa, Y Rhyl

Hyfforddwr: Bevan & Buckland, Cyfrifwyr Siartredig

Cost: Aelodau £40
Ddim yn Aelodau £65

Cynhadledd a Chinio Gwobrwyo Blynyddol CTA Cymru 2011

Cynhelir ein Cynhadledd 2011 ar 19 – 20 Hydref yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod, Powys. Rhoddir y newyddion diweddaraf am fanylion y siaradwyr a'r pynciau yn gyson ar dudalennau Digwyddiadau/Hyfforddiant adran Cymru gwefan CTA yn ystod y misoedd nesaf yma.

Dangos gwerth CC – Archwilio Cymdeithasol NEWYDD

Beth sydd dan sylw?

Wrth i bob math o gyllido fynd yn brinnach, dydy hi erioed wedi bod yn bwysicach dangos gwerth a manteision y gwasanaethau CC a ddarperir. Bydd y sesiwn yma yn eich helpu i ddeall yr effaith y mae sefydliadau CC yn ei chael ar y bobl eu hunain. Ar yr un pryd, byddwch yn dysgu sut i adeiladu atebolrwydd trwy ymwneud â sefydliadau a phrif randdeiliaid. Byddwch yn dysgu sut i brofi'n well werth sefydliadau i gyllidwyr posibl a gwella perfformiad. Mae archwiliadau cymdeithasol yn dod â gwybodaeth am effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sefydliadau ynghyd.

Amcanion Dysgu:

- Golwg cyffredinol ar Archwilio Cymdeithasol a sut y gall wella sefydliadau CC
- Deall y broses
- Beth yw'r manteision?
- Arolygon sampl i'w defnyddio wrth ymgynghori â rhanddeiliaid

Pwy ddylai ei fynychu?

Unrhyw un â chyfrifoldeb am reoli, cyllido, comisiynu a monitro perfformiad sefydliadau CC

Dyddiad: **8 Chwefror 2012**
Lleoliad: **Gwesty'r Holiday Inn, Caerdydd, Y Rhws**
Hyfforddwr: **CTA Consultancy**

Cost: Aelodau £40,
Ddim yn Aelodau £60

Aelodaeth CTA

Os nad ydych eisoes yn aelod, beth am ymuno â ni? Yn ogystal â'r rhai sy'n darparu gwasanaethau CC generig, mae ein categorïau aelodaeth hefyd yn cynnwys Cartrefi Gofal, Ysgolion, Colegau, Prifysgolion, Grwpiau leuenctid, Grwpiau Diwylliannol a Ffydd. Wedi'u cynnwys ym mhob un o'n pecynnau aelodaeth ceir:

- Mynediad i gyngor cyfreithiol a thechnegol am ddim
- Gwybodaeth a chyngor rheolaidd ar faterion sy'n effeithio ar gludiant
- Gostyngiadau neilltuedig ar Yswiriant Bws Mini CTA a mynediad i Gynllun Pwrcasu Cerbyd CTA

Am fwy o wybodaeth am y categorïau aelodaeth sydd ar gael i chi, ewch i'n gwefan yn www.ctauk.org ac ewch i dudalen aelodaeth CTA.

Fforymau Cludiant Cymunedol Rhanbarthol

Mae'r fforymau'n fodd i weithredwyr, rhanddeiliaid traws-sector a'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu a chyllido gwasanaethau Cludiant Cymunedol, drafod materion perthnasol, rhannu gwybodaeth/arfer da, rhwydweithio a rhoi safbwynt er mwyn hysbysu adolygiadau strategol a datblygu polisi. Y rôl yw meithrin perthynas gryfach a gwell dealltwriaeth rhwng gweithredwyr a rhanddeiliaid yn y rhanbarthau er mwyn gwella:

- Proffil a hyrwyddo gwasanaethau Cludiant Cymunedol
- Gweithio ar y cyd ar fentrau Cludiant Cymunedol arloesol
- Deall y ffactorau sydd eu hangen er mwyn i'r sector dyfu
- Ymwybyddiaeth o bryderon Gweithredwyr Cludiant Cymunedol
- Ymgynghori ar ddatblygu polisi a strategaeth

Yn agored i BAWB – AM DDIM

Fforymau Rhanbarthol

Fforwm: **De Ddwyrain Cymru (yn cynnwys Fforwm Ceir)**
Dyddiadau: **5 Hydref 2011 a 14 Mawrth 2012**
Lleoliad: **Tŷ Antur, Abercynon**

Fforwm: **De Orllewin Cymru (yn cynnwys Fforwm Ceir)**
Dyddiadau: **8 Mehefin a 9 Tachwedd 2011**
Lleoliad: **Gwesty'r Ivy Bush Royal, Caerfyrddin**

Fforwm: **Gogledd Ddwyrain Cymru**
Dyddiadau: **3 Mehefin ac 11 Tachwedd 2011**
Lleoliad: **Neuadd Morfa, Y Rhyl**

Fforwm: **Gogledd Orllewin Cymru**
Dyddiadau: **2 Mehefin a 10 Tachwedd 2011**
Lleoliad: **Y Galeri, Caernarfon**

Fforymau Ceir Cymunedol

Fforwm: **Gogledd Cymru**
Dyddiadau: **3 Mehefin 2011**
Lleoliad: **Neuadd Morfa, Y Rhyl**

Noder: Mae Fforymau Ceir Cymunedol De Cymru wedi'u cyfuno â'r Fforymau Rhanbarthol. Gw. dyddiadau uchod